Dogfen Trafodaeth Bord Gron

Creu'r Amodau ar gyfer Ymchwil Gyfranogol a Dysgu Proffesiynol, Mai 19eg 2026

Diben y drafodaeth bord gron hon

Mae'r drafodaeth bord gron hon yn archwilio'r **amodau methodolegol lle roedd ymchwil gyfranogol, deialogaidd, sydd wedi'i seilio'n foesegol yn gweithredu fel safle ar gyfer dysgu proffesiynol** gydag ymarferwyr. Mae'n tynnu ar elfen fethodolegol wedi'i hysbrydoli gan Reggio Emilia o'r prosiect ehangach, a oedd yn archwilio sut y trafodwyd cyfranogiad, pŵer a dysgu proffesiynol mewn gofod ymchwil cydweithredol.

Mae'r tabl hwn wedi'i gynnwys fel **allanolyn bwriadol**. Nid yw'n canolbwyntio ar blant neu ymarfer yn yr ystafell ddosbarth yn uniongyrchol, ond yn hytrach ar yr **amodau sy'n gwneud ymchwil gyfranogol a dysgu proffesiynol yn bosibl.** Mae'n cael ei gynnig fel **gwaith ar y gweill**, gyda'r bwriad o ddechrau dialog yn hytrach na chyflwyno casgliadau pendant.

Pam fod hyn yn bwysig

O'r cychwyn cyntaf, dyluniwyd y prosiect hwn yn fwriadol i weithio'n **gyfranogol ac yn ddeialogaidd**, gyda'r ddealltwriaeth bod cysylltiad agos rhwng gwaith ymchwil a dysgu proffesiynol yn hytrach na'u bod yn feysydd ar wahân. Roedd y safbwynt methodolegol hwn yn siapio'r ffordd yr ymdriniwyd â pherthnasoedd, deialog a chynhyrchu gwybodaeth o'r cychwyn cyntaf.

Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, trodd ein sylw at sut roedd **y prosesau ymchwil gyfranogol eu hunain yn gweithredu fel safleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol**. Daeth yn amlwg ar draws y prosiect bod cysylltiad agos rhwng addysgeg gyfranogol gyda phlant â sut mae oedolion yn profi cyfranogiad mewn gofod ymchwil – fel ymarferwyr, ymchwilwyr a gweithredwyr polisi.

Mae'r myfyrdod hwn yn awgrymu:

- nad yw cyfranogiad yn bryder addysgeg neu fethodolegol yn unig, ond ei fod yn **ymarfer perthynol, moesegol ac emosiynol** a weithredir mewn cyfarfyddiadau ymchwil;
- bod dyluniad yr amgylcheddau ymchwil gyfranogol yn siapio **pa fathau o ddysgu proffesiynol sy'n bosibl**, gan gynnwys a ellir ymdrin ag ansicrwydd, her a bregusrwydd yn gynhyrchiol;
- nad methiannau yw eiliadau o anghysur neu ansicrwydd o fewn ymchwil gyfranogol, ond gallant ddod yn **safleoedd dysgu pwysig**, pan gânt eu cydnabod yn fwriadol a'u cynnal yn ofalus.

Cyfeiriad methodolegol

Hysbyswyd y gwaith hwn gan:

- **Adeiladwaith cymdeithasol**, gan leoli gwybodaeth fel rhywbeth sydd wedi'i gyd-adeiladu, ei leoli ac sy'n ddeialogaidd;
- **Ymagwedd fethodolegol wedi'i hysbrydoli gan Reggio Emilia**, gan dynnu ar:
  - *progettazione* (dyluniad ymatebol, ailadroddus),
  - *formazione* cilyddol (dysgu proffesiynol wedi'i gyd-adeiladu),
  - *confronto* (deialog sy'n croesawu gwahaniaeth ac anghytuno).

Yn hytrach na thrin Reggio Emilia fel model i'w weithredu, cafodd ei ddefnyddio fel **dull cysyniadol-moesegol** sy'n siapio perthnasoedd ymchwil, gofod dysgu a deialog. O safbwynt Reggio, roedd sylw i berthnasoedd, dialog ac **arwyddocâd eiliadau bach** yn ganolog i sut yr oedd dysgu a chreu ystyr yn datblygu yn y broses ymchwil

Heriau allweddol: amodau methodolegol sy'n siapio dysgu proffesiynol

Mae'r heriau isod yn adlewyrchu **sut mae dewisiadau methodolegol penodol yn siapio cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol a newid mewn ffordd o feddwl** yn y broses ymchwil gyfranogol.

1. Roedd cyfranogiad yn galw am amodau, nid bwriad yn unig

Hyd yn oed pan oedd pob cyfranogwr yn gwerthfawrogi cyfranogiad, roedd y cyfleoedd dysgu proffesiynol yn **fregus ac yn ddibynnol ar gyd-destun.** Roedd amser, ymddiriedaeth, parhad, iaith a hwyluso yn effeithio ar a oedd dialog yn teimlo'n ddiogel, cynhyrchiol ac yn gallu cefnogi myfyrdod a dysgu.

2. Roedd anghysur yn nodwedd gyffredin o ddysgu proffesiynol o fewn ymchwil gyfranogol

Roedd athrawon yn aml yn profi:

- ansicrwydd ynglŷn â disgwyliadau,
- pryder ynglŷn â'i "wneud yn anghywir",
- anghysur gyda dulliau neu ffyrdd o weithio aml-ddull, penagored

Pan gânt eu cydnabod a'u cynnal yn ofalus, byddai'r adegau hyn yn aml yn achosi i hierarchaethau cudd, rhagdybiaethau ynglŷn ag arbenigedd, a

llafur emosiynol dysgu proffesiynol i'r amlwg, a'u bod yn datblygu i fod yn **safleoedd pwysig ar gyfer myfyrio a newidiadau i ffyrdd o feddwl**.

3. Roedd iaith yn bwysicach na'r disgwyl

Roedd dewisiadau methodolegol a oedd yn ymddangos yn fach (e.e. "cyflwyniad" o gymharu â "rhannu") yn dylanwadu'n arwyddocaol ar:

- ymdeimlad o ddiogelwch yr athrawon
- canfyddiadau o hierarchaeth
- parodrwydd i gymryd risgiau deallusol a phroffesiynol.

Roedd dysgu proffesiynol yn cael ei negodi drwy strwythurau yn ogystal ag **iaith bob dydd ac yn cael ei osod mewn cyfarfyddiadau ymchwil**.

4. Roedd gwastadáu hierarchaethau yn broses barhaus, anorffenedig.

Er gwaethaf ymrwymiadau cadarn i bartneriaeth, roedd rolau traddodiadol (ymchwilydd/ymarferydd; arbenigwr/dechreuwr) yn dychwelyd ar adegau – yn aml yn gynnil. Roedd dysgu proffesiynol parhaus yn galw am **waith perthynol gweithredol, parhaus** yn hytrach na phenderfyniadau dylunio untro neu egwyddorion datganedig.

5. Roedd gan fân addasiadau arwyddocâd anghymesur

Roedd mân newidiadau dylunio – er enghraifft ail-lunio tasgau, arafu'r cyflymder, neu greu adegau anffurfiol o gysylltiad – yn aml yn cefnogi **newidiadau anghymesur i ffordd o feddwl**, hyd yn oed pan oedd y newid yn ymddangos yn gymedrol yn allanol. Disgrifiodd cyfranogwyr yr adegau hyn yn rhai arwyddocaol o ran y ffordd yr oeddynt yn deall eu rôl broffesiynol a'r hyn yr oeddynt yn credu oedd yn bosibl yn eu cyd-destunau hwy.

Y tensiynau sy'n codi yn sgîl hyn

Mae'r gwaith hwn yn datgelu nifer o densiynau heb eu datrys, gan gynnwys:

- Sut ydym ni'n cydbwyso **her a diogelwch seicolegol** mewn ymchwil gyfranogol a dysgu proffesiynol?
- Pryd mae anghysur yn troi'n **gynhyrchiol**, a phryd mae'n troi'n waharddol?
- Sut all ymchwil gyfranogol osgoi ail-greu'r un hierarchaethau y mae'n ceisio eu chwalu?
- Beth sydd ei angen ar **gyfranogiad moesegol** mewn systemau dan bwysau amser, sy'n cael eu gyrru gan atebolrwydd?

Nid yw'r tensiynau hyn yn cael eu fframio fel problemau i'w datrys, ond fel **amodau i'w llywio**.

Cyfeiriad y Drafodaeth Bord Gron

Gwahoddir cyfranogwyr i archwilio rhai o'r cwestiynau canlynol. Nid oes angen i chi drafod pob un ohonynt.

1. Pa amodau mewn amgylcheddau ymchwil gyfranogol sy'n galluogi addysgwyr i fynegi ansicrwydd, anghysur neu fregusrwydd yn ddiogel? Beth sy'n amharu ar yr amodau hyn?
2. Sut y dylai ymchwil gyfranogol ymateb i anghysur?
   Fel rhywbeth i'w leihau, neu rywbeth i weithio gydag ef? Beth yw'r cyfyngiadau moesegol?
3. Beth all llunwyr polisi ei ddysgu o hyn ynglŷn â **dylunio systemau dysgu proffesiynol** sy'n ymgysylltu ag ymchwil?
   Beth sydd ei angen y tu hwnt i ganllawiau neu ddisgwyliadau?
4. Pa mor ddefnyddiol yw egwyddorion Reggio Emilia (e.e. *progettazione*, *formazione* cilyddol, *confronto*) ar gyfer ymchwil gyfranogol gydag ymarferwyr?
   Pryd y gallai fod angen eu haddasu?
5. Pa "mân newidiadau" i ddyluniad ymchwil neu ddysgu proffesiynol sydd wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol yn eich barn chi i ddysgu a chyfranogiad?

Beth sy'n digwydd nesaf?

Defnyddir mewnwelediadau o'r drafodaeth bord gron hon i hysbysu cam nesaf allbynnau o'r prosiect Cyfranogiad Plant mewn ysgolion, gan gynnwys briffio polisi, deunyddiau canllaw ac adnoddau dysgu proffesiynol. Bydd y cyfraniadau yn helpu i siapio sut y mae tystiolaeth yn cael ei dehongli a'i defnyddio, yn hytrach na'i thrin fel casgliadau terfynol.

Gwahoddir cyfranogwyr i barhau i gyfranogi yn y dialog parhaus hwn. Gallwch gysylltu â ni ar *@uwe.ac.uk*

Ymunwch â'n rhwydwaith

Ewch i'n gwefan

Bwriedir i'r ddogfen hon gefnogi trafodaeth a gwneud synnwyr. Nid yw'n cynrychioli cyfres derfynol o argymhellion ar y pwynt hwn yn y prosiect.